# CWRICWLWM
# YSGOL GYMRAEG Y GWERNANT




"Gwreiddiau i dyfu. Iaith i'w thrysori ~ Roots to grow. Language to treasure"

# CWRICWLWM YR YSGOL

Yn Ysgol Gymraeg y Gwernant ymfalchiwn yn y ffaith ein bod yn meddu ar weledigaeth ar gyfer ein disgyblion sy'n sicrhau bod pob disgybl yn cael yr addysg orau oll. Ein cenhadaeth yn Ysgol y Gwernant yw:

I fod yn ysgol lwyddiannus sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth galon ein cymuned. Ein nod yw bod yn sefydliad sydd yn /mynd a'r plant ar daith/ dechrau taith y plant wrth sicrhau eu bod yn cael addysg gyfoethog, ysbrydoledig ac atyniadol ac yn medru agor drysiau iddynt a'i paratoi tuagat y dyfodol; gan alluogi pob plentyn i fod yn gorfforol, yn greadigol, yn dechnegol, yn emosiynol ac yn academaidd ffit am oes!

# Ein Gweledigaeth

- Mae ein gweledigaethau a'n gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Maent yn sylfaen i'n haddysgu a'n dysgu, ac yn darparu amgylchedd sy'n paratoi ein disgyblion fel dinasyddion hyderus a hapus. Credwn fod gennym weledigaeth gref a datganiad o genhadaeth sydd yn helpu ein hysgol i ddod i ddealltwriaeth gyffredin. Gweledigaeth yw nod ein hysgol - lle gobeithiwn ei gweld yn y dyfodol.

# Ein gwerthoedd

- Rydym yn llwyddo wrth fod yn :
- Barchus – Dinasyddion,gwybodus
- Iach – Unigolyn iach,hyderus
- Fentrus  – Cyfranwyr mentrus,creadigol
- Uchelgisiol - Uchelgeisiol,galluog



Wrth drafod â holl rhanddeiliaid yr Ysgol, rydym wedi dod at benderfyniad am yr hyn sydd yn bwysig yn Ysgol Y Gwernant gan son am weledigaeth, gwerthoedd, amcanion ac egwyddorion. Yn ystod y trafodaethau rydym wedi cael y cyfle I feddwl am:


- Beth y dylem ei ddysgu a pham?
- Sut y dylem ei ddysgu?
- Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni?
- Wrth wrando ar y rhanddeiliad, dyma'r eirfa sydd wedi cael ei benderfynnu ar sydd yn bwysig:

| Ein Gwerthoedd | Ein ymddygiad |
|---|---|
| Tyfu'n iach | Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithredol a llawn ym mywyd ein cymuned a byddwn yn annog ein dysgwyr i ddatblygu eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi. |
| Hapusrwydd | Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion lles pob dysgwr unigol i sicrhau eu bod yn mwynhau eu dysgu bob dydd. |
| Cymreictod | Rydym yn dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru drwy gydol ein gwaith. |
| Bod yn annibynnol | |
| Gwneud ein gorau | Caiff dysgwyr eu cefnogi i ddylanwadu ar eu dysgu eu hunain wrth i ni hwyluso ac annog amgylchedd dysgu heriol sy'n procio'r meddwl. |
| Hyderus | Rydym yn cefnogi ein gilydd, yn ddysgwyr a staff i gymryd risgiau ac arloesi yn hyderus ac i ddysgu o'n llwyddiannau a methiannau. |
| Parchu'r gymuned a'r amgylchedd | Rydym yn chwarae rhan gweithgar ym mywyd ein cymuned ac mae'r gymuned yn chwarae rhan weithredol ym mywyd ysgol. Rydym yn dathlu ac yn gwarchod ein cynefin. |

# Y 4 DIBEN

## BYDD EIN HOLL BLANT A PHOBL IFANC YN :

| Dysgwyr uchelgeisiol, galluog… sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau, ac sy'n : | Cyfranwyr mentrus, creadigol … sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, ac sy'n: | Dinasyddion egwyddorol, gwybodus …sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd, ac sy'n: | Unigolion iach, hyderus… sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, ac sy'n datblygu: |
| --- | --- | --- | --- |
| • gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain<br>• mwynhau her a datrys problemau<br>• datblygu gwybodaeth a sgiliau a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau<br>• gallu trafod eu dysgu yn hyderus<br>• gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg,<br>• gallu defnyddio mathemateg a rhif a thechnolegau digidol yn effeithiol | • meddwl yn greadigol<br>• cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu, i addasu ac i datrys problemau<br>• adnabod cyfleoedd a manteisio arnynt<br>• hyderus i fentro<br>• arwain a chydweithio mewn timau<br>• mynegi eu syniadau a'u hemosiynau mewn gwahanol ffyrdd<br>• defnyddio eu hegni a'u sgiliau er budd eraill | • ffurfio barn a thrafod materion ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd<br>• deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol<br>• deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd<br>• gwybod am eu diwylliant a'u cymuned,<br>• gwybod am gymdeithas a'r byd presennol ac yn y gorffennol<br>• parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol<br>• gweld bod ganddynt rôl i'w chwarae i sicrhau cynaladwyedd y blaned | • iechyd a diogelwch corfforol a meddyliol,<br>• cydberthnasau yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth<br>• gwerthoedd personol<br>• sgiliau ac annibyniaeth i ddelio gyda bywyd bob dydd<br>• y gallu i wynebu a goresgyn heriau |









**Gwenynod y Gwernant**

Cyfranwyr mentrus, creadigol


Dysgwyr uchelgeisiol, galluog




Dinasyddion egwyddorol, gwybodus

Unigolion iach, hyderus

Cydweithio, Prysur, Gweithgar






# Datganiadau Yr Hyn sy’n bwysig ar gyfer y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

| Y Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles | Dyniaethau | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae archwilio’r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae’n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol | Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol | Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | Mae ieithoedd yn ein cysylltu â’n gilydd | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau |
| Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol | Mae’r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a’n lles emosiynol | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a’u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd | Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o’n hamgylch | Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas |
| Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg | Mae’r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi’i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol | Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu | Mae’r byd o’n cwmpas yn llawn pethau byw sy’n dibynnu ar ei gilydd i oroesi |
| | Mae’r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a’n lles | Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl | Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae’r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | Mae llenyddiaeth yn tanio’r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd | Mae mater, a’r ffordd y mae’n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau |
| | Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles | Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol | | | Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd<br>Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i’n byd digidol |
| | | | | | Mae cyfrifiaduraeth yn sail i’n byd digidol |

Iechyd a lles yw prif nod ni yma yn Ysgol Y Gwernant gan ein bod yn credu yn gryf os nad ydynt yn hapus mae'n anodd iawn iddynt lwyddo.

- Rydym wedi datblygu cwricwlwm sydd yn cymryd llais y plentyn at ganol ei chynllunio lle maant yn rhan anotod o ddylunio tasgau a gweithgareddau yn dymhorol.
- Fel ysgol rydym yn defnyddio llawer strategaeth asesu ffurfiannol



# ASESU A CHYNNYDD

Mae dilyniant dysgwyr ar hyd continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny.

Camau cynnydd:
Cam cynnydd 1 – 3-5 oed
Cam cynnydd 2 – 5-8 oed
Cam cynnydd 3 – 8-11 oed

<u>Methodoleg a stratagaethau</u>

A yw arfer yr ystafell ddosbarth yn llwyddo i ymgysylltu a'r holl ddisgyblion a datblygu eu sgiliau, eu gwybodaetha'u dealltwriaeth i lefel briodol o uchel wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae yna 3 pwrpas i asesu:
1) Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd.
2) Nodi, dal a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser.
3) Deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arfer.

